Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27

Hydref 2025

**Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi cynlluniau gwariant a chyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53245, ISBN digidol 978-1-80633-573-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys

Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

1: Crynodeb Gweithredol

2: Y Cyd-destun Cyllidol ac Economaidd

3: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cael ei ariannu

3.1 Trethi Datganoledig

3.2 Grant Bloc

3.3 Ffynonellau Cyllid Eraill

4: Cynlluniau Gwario Llywodraeth Cymru

Atodiad A: Trethi Datganoledig ac Addasiadau i'r Grant Bloc

# Rhagair
## gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg



**Un o gyfrifoldebau mwyaf llywodraeth yw creu cyllideb a sicrhau llwyddiant ei thaith drwy'r Senedd.**

Mae Cyllideb Cymru yn fwy na chofnod o rifau – biliynau o bunnoedd o gyllid adnoddau a chyfalaf wedi'u trefnu'n ofalus rhwng gwahanol golofnau a llinellau gwariant.

Dyma becynnau cyflog pobl; dyma gyfrifon busnesau lleol; y prydau ysgol am ddim a'r deunyddiau addysgu yn ein hysgolion; y trenau newydd ar ein rheilffyrdd a'r cartrefi yn ein cymunedau. Dyma'r miloedd o leoliadau gofal plant sy'n gofalu am ein plant; y to newydd ar yr oriel gelf; y llwyfannau sain yng ngwyliau cerddoriaeth yr haf; y presgripsiynau rydym yn eu cymryd bob dydd a'r meddyginiaethau newydd sy'n achub bywydau, gan gynnig gobaith newydd.

Mae wedi bod yn fraint bod yn rhan uniongyrchol o'r busnes heriol o wneud cyllideb Cymru dros y degawd diwethaf a mwy. Yn union fel o'r blaen, rwyf wedi cydbwyso'n ofalus yr anghenion niferus sy'n bodoli ar gyfer buddsoddi ledled Cymru. Yng nghyd-destun yr ansicrwydd a achosir gan ddiwedd tymor y Senedd ac etholiad ar y gorwel, mae'n bwysicach nag erioed bod y gyllideb hon yn rhoi llwyfan sefydlog i Gymru, yn enwedig i'r sector cyhoeddus – ac i bawb sy'n dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus. Mae canlyniad y broses hon yn dyngedfennol i'w cynlluniau gwariant a'u cyllidebau.

Mae'r rhan fwyaf o gyllid Cymru yn parhau i ddod o'r setliad grant bloc gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae ein trethi datganoledig yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn y ffordd y mae ein cyllideb yn cael ei hadeiladu. Maent yn darparu ysgogiadau hanfodol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y cyllid sydd ar gael. Yn y gyllideb hon rwy'n amlinellu rhai newidiadau i drethi datganoledig, ond ni fydd unrhyw newid i Gyfraddau Treth Incwm Cymru.

Bydd y Gyllideb Ddrafft eleni'n cael ei chyhoeddi mewn dau gam – mae'r cam cyntaf, heddiw, yn nodi'r prif flociau adeiladu, sef ein cyllid, ein penderfyniadau o ran trethiant a'r dyraniadau adrannol. Ar 3 Tachwedd 2025, byddwn yn cyhoeddi'r cynlluniau gwario adrannol. Bydd y setliad llywodraeth leol drafft yn dilyn yn ddiweddarach ym mis Tachwedd.

Y Gyllideb Ddrafft yw dechrau proses y gyllideb – nid ei diwedd. Mae'n caniatáu i'n gwasanaethau cyhoeddus ddechrau eu proses gynllunio eu hunain ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu 98.6% o'r holl gyllid sydd ar gael ar

gyfer 2026/26. Mae hynny'n golygu y gellir gwneud mwy i fuddsoddi yn anghenion hanfodol Cymru, erbyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr.

Rwy'n dal yn agored, felly, i weithio gyda phleidiau gwleidyddol eraill yn y Senedd sy'n rhannu fy argyhoeddiad bod gennym gyfrifoldeb ar y cyd i basio Cyllideb Cymru ac sy'n credu y gellid cytuno ar gyllideb fwy uchelgeisiol.

Ein cyfrifoldeb pennaf fel llywodraeth, ac, yn wir, ein cyfrifoldeb ar y cyd fel Aelodau'r Senedd, yw osgoi'r niwed a fyddai’n cael ei achosi i Gymru ac i wasanaethau, busnesau a chymunedau drwy fethu â phasio cyllideb o gwbl.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn rhoi'r llwyfan inni allu gweithio gyda'n gilydd i gyflawni hynny.

**Y Gwir Anrh Mark Drakeford**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
Hydref 2025

# 1. Crynodeb Gweithredol

## Trosolwg

Dyma gyllideb sy'n rhoi sefydlogrwydd yn gyntaf ac sy'n buddsoddi dros £27bn yng Nghymru. Hon fydd y Gyllideb olaf i gael ei gosod yn y chweched Senedd. Mae'r adroddiad hwn, sef Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol yn nodi'r penderfyniadau y mae Gweinidogion Cymru wedi'u gwneud ynghylch trethiant a dyraniadau adnoddau a chyfalaf lefel uchel ar gyfer 2026-27.

Y llynedd, lluniodd Llywodraeth Cymru – a chymeradwyodd y Senedd – gyllideb a oedd yn nodi llwybr ar gyfer dyfodol mwy disglair. Darparwyd £1.6bn yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a chyllid ar gyfer blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon wedi'i hadeiladu ar y sylfeini cryf hynny. Rydym yn ailddatgan ein penderfyniadau buddsoddi yn y meysydd sydd bwysicaf i bobl, gan sicrhau bod buddsoddiad yn y meysydd hyn yn parhau drwy gynyddu lefelau cyllido yn unol ag amcanestyniadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer chwyddiant yn 2026-27. Mae diogelu'r cyllid a sicrhawyd drwy Gyllideb Cymru 2025-26 yn ein rhoi yn ôl yn gadarn ar y llwybr tuag at dwf.

Y Gyllideb Ddrafft yw cam cyntaf proses y gyllideb. Rydym yn cyflwyno cyllideb blwyddyn, sy'n rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i wasanaethau cyhoeddus wrth inni agosáu at ddiwedd tymor y Senedd. Mae'n gyllideb agored a chyfrifol, sy'n darparu mwy o gyllid i holl adrannau Llywodraeth Cymru yn 2026-27.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn rheoli arian yn ofalus, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus i gynllunio'n hyderus yn y cyfnod cyn diwedd tymor y Senedd. Mae hefyd yn gosod sylfaen y byddwn yn parhau i adeiladu arni rhwng nawr a mis Ionawr 2026, er mwyn sicrhau bod y Gyllideb Derfynol yn cael ei phasio.

## Y Gyllideb Ddrafft Amlinellol

Y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru drwy refeniw trethi datganoledig a grant bloc Llywodraeth y DU ar gyfer 2026-27 yw £27.6bn. Mae hyn yn cynnwys £21.9m o'r grant bloc, £5.5bn o drethi datganoledig a £150m o fenthyca cyfalaf.

Mae trethi datganoledig yn codi swm sylweddol o refeniw, sy'n ein galluogi i wario mwy ar ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon, rydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Rydym yn darparu mwy na £27bn yn y Gyllideb Ddrafft i'w fuddsoddi yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn cynnwys £22.3bn o gyllid adnoddau, £3.6bn o gyllid cyfalaf a £1.2m o gyllid ardrethi annomestig i lywodraeth leol. O'r cyllid

sy'n weddill, mae £125m yn mynd i gyrff[1] a ariennir yn uniongyrchol, ac mae £380m yn parhau heb ei ddyrannu. Heddiw, rydym yn nodi cynlluniau i wario 98.6% o'r cyllid sydd ar gael inni. Rydym yn darparu £800m yn fwy yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 nag a ddyrannwyd yng Nghyllideb Derfynol 2025-26.

**Ffigur 1.1: Dyraniadau Adnoddau Cyllidol a Chyfalaf Cyllideb Ddrafft 2026-27**

| | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT MAIN** | **Adnoddau Cyllidol** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 12,422,751 | 625,750 | 13,048,501 |
| Tai a Llywodraeth Leol (ac eithrio ardrethi annomestig) | 5,690,029 | 1,297,614 | 6,987,643 |
| Addysg | 1,851,904 | 380,022 | 2,231,926 |
| Trafnidiaeth | 697,374 | 551,373 | 1,248,747 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 586,104 | 322,357 | 908,461 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 490,128 | 339,633 | 829,761 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 143,554 | 18,705 | 162,259 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 445,483 | 18,239 | 463,722 |
| **Cyfanswm** | **22,327,327** | **3,553,693** | **25,881,020** |

## Digwyddiadau Cyllidol Llywodraeth y DU

Ym mis Mehefin 2025, nododd Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU setliadau amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru. Darparodd gyllidebau adnoddau ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at 2028-29 a chyllidebau cyfalaf hyd at 2029-30. Mae'r gorwel tymor hwy hwn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i Lywodraeth Cymru a mwy o allu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn pennu'r cynlluniau gwario ar gyfer blwyddyn gyntaf y setliad hwn. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y gall Llywodraeth y DU wneud newidiadau yn ei Chyllideb yr Hydref ar 26 Tachwedd. Bydd yr OBR hefyd yn cyhoeddi Rhagolygon Economaidd a Chyllidol newydd ar 26 Tachwedd. Yn bwysicaf oll i Gyllideb Cymru, bydd hyn yn cynnwys rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer chwyddiant, y trethi datganoledig a'r trethi cyfatebol yn y DU.

[1] Y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yw: Comisiwn y Senedd; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Swyddfa Archwilio Cymru; a'r Comisiwn Etholiadol.

Mae ein proses gyllidebol wedi'i chynllunio'n dda i gadw ansicrwydd o'r fath mewn cof, ac mae gennym hyblygrwydd i ymateb i unrhyw anwadalrwydd treth a darparu ar gyfer newidiadau yn y Gyllideb Derfynol.

Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft blwyddyn, rydym yn canolbwyntio ar risgiau a chyfleoedd cyllidol tymor hwy drwy waith ein Hadolygiad ein hunain o Wariant Cymru, sy'n darparu dull strategol o gynllunio'n gyllidol ar gyfer Cymru. Bydd y rhaglen yn sefydlu sylfaen dystiolaeth yn ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer y dewisiadau y bydd Cymru yn eu hwynebu yn y dyfodol a bydd yn darparu opsiynau tymor hwy i ymdrin â'r meysydd hyn. Yn ogystal, rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â threthi. Rydym yn ymgynghori am y ffordd rydym yn gwneud newidiadau i drethi datganoledig, ac ar 3 Tachwedd byddwn yn dechrau ymgynghoriad i wella deddfwriaeth ddatganoledig ym maes trethi. Mae ymchwil  ar y gweill hefyd i adolygu'r pwerau sydd gan Gymru mewn perthynas â threth incwm. Bydd adroddiad ar y gwaith ymchwil hwn yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

## Proses y Gyllideb

Bydd Cyllideb 2026-27 yn cael ei gosod yn unol â'r trefniadau a nodir ym Mhrotocol y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Mae Cyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27 yn cael ei chyhoeddi ar 14 Hydref, a bydd y Gyllideb Ddrafft Fanwl yn cael ei chyhoeddi ar 3 Tachwedd. Mae hyn yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ein Cyllideb Ddrafft yn gynnar yn nhymor yr hydref. Roedd hyn yn bosibl oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi darparu manylion am ein setliad ym mis Mehefin 2025.

Mae'r adroddiad hwn, sef Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol yn nodi ein dyraniadau trethiant, cyllid a gwariant lefel uchel; bydd y Gyllideb Ddrafft Fanwl yn darparu cynlluniau gwario ar gyfer portffolios ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL). Bydd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cael ei gyhoeddi ar 3 Tachwedd.

Ar ôl i'r Senedd graffu ar y Gyllideb Ddrafft Amlinellol a'r Gyllideb Ddrafft Fanwl, bydd Cyllideb Derfynol 2026-27 yn cael ei chyhoeddi ar 20 Ionawr 2026 a bydd yn destun dadl ar 27 Ionawr 2026.

## Y Rhaglen Lywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Rhaglen Lywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi llywio ein dull gweithredu o ran Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn sylweddol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi dylanwadu ar flaenoriaethau strategol y gyllideb a'i methodoleg.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hamcanion llesiant, sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys creu Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach a mwy cyfartal, yn ogystal â meithrin cymunedau cydlynus, diwylliant ac iaith fywiog, a chyfrifoldeb byd-eang. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adeiladu ar sylfeini 2025-26 o ran cyflawni ar gyfer pobl Cymru nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r dull a ddilynwyd eleni yn parhau â'n hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy fodelu'r pum ffordd o weithio – meddwl yn y tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad. Drwy gynnal hyblygrwydd a bod yn agored i gydweithio, mae'r gyllideb yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor.

Rydym yn gweithredu i atal dirywiad a sicrhau buddion ar draws sectorau, gan weithio tuag at fwy o atal ac integreiddio, drwy gynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau craidd fel iechyd, addysg a gweithredu ar newid hinsawdd. Fel erioed, rydym wedi mynd ati'n gydweithredol i ddatblygu'r gyllideb, gan roi blaenoriaeth i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys ym mhroses y gyllideb.

Drwy sicrhau cyllid diogelwch i barhau i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol, rydym yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy ac i barhau i gyd-fynd â'r nodau a'r amcanion llesiant. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn deillio o waith cydweddu strategol rhwng y Rhaglen Lywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n adlewyrchu agwedd aeddfed a chyfrifol at gyllid cyhoeddus, gan sicrhau parhad, hyblygrwydd a chynaliadwyedd yn unol â gweledigaeth hirdymor Cymru ar gyfer llesiant.

## 2. Y Cyd-destun Cyllidol ac Economaidd

Mae economi Cymru wedi’i gwreiddio’n ddwfn yn economi ehangach y DU. Mae llawer o'r tueddiadau cyffredinol sy'n effeithio ar economi'r DU yn cael eu hadlewyrchu yn amodau economaidd Cymru neu'n dylanwadu'n drwm arnynt.

Bu cynnydd sydyn o 0.7% yn allbwn neu GDP y DU yn chwarter cyntaf 2025. Roedd rhywfaint o'r cryfder mewn allbwn yn adlewyrchu'r ffaith bod cwmnïau yn blaenlwytho allforion i Unol Daleithiau America cyn i dariffau'r Arlywydd ddod i rym yn y gwanwyn. Yn anochel, arafodd GDP yn yr ail chwarter, gan gofnodi cyfradd twf o 0.3%. Mae Banc Lloegr yn disgwyl i dwf fod tua 1.2% ar gyfer blwyddyn galendr 2025, er y gallai hyn fod ychydig yn uwch bellach oherwydd bod yr ail chwarter yn uwch na'r disgwyl.

Mae Banc Lloegr yn rhag-weld alldro tebyg ar gyfer twf GDP yn 2026 (sef 1.2%) a pherfformiad ychydig yn gryfach o 1.5% yn 2027. Byddai canlyniadau o'r fath yn cymharu'n wael â'r cynnydd blynyddol cyfartalog o 2% a gofnodwyd rhwng 2010 a 2019, a oedd yn ei dro yn wannach na'r cynnydd blynyddol cyfartalog o 2.8% a gyflawnwyd rhwng 1998 a 2007.

Yn ei Rhagolwg Economaidd a Cyllidol ym mis Mawrth 2025, barnodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) y dylai diwygiadau economaidd Llywodraeth y DU roi hwb cymedrol i allu cynhyrchiol economi'r DU tua diwedd y degawd hwn a hwb mwy sylweddol yn y 2030au. Serch hynny, ni fydd twf GDP, ym marn yr OBR, yn adfer y cyfraddau ariannol i'r hyn oeddent cyn yr argyfwng, boed hynny yn y tymor byr neu yn y tymor canolig.

Mae cyflogaeth wedi gwanhau dros y misoedd diwethaf, yn ôl data cynllun Talu Wrth Ennill (TWE) Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Mae swyddi'n cael eu colli'n bennaf yn niwydiannau'r sector preifat yng Nghymru a'r DU. Yn ail chwarter 2025, roedd swyddi TWE yn y sector preifat yng Nghymru i lawr 1.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae colli swyddi wedi bod yn fwyaf amlwg mewn gweithgareddau sy'n talu'n gymharol isel. Er enghraifft, ym maes lletygarwch, roedd nifer y cyflogeion TWE yng Nghymru 5% yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Oherwydd problemau’n ymwneud ag ansawdd data’r Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, nid oes modd bod yn sicr ynghylch y tueddiadau presennol mewn diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru nac yn y DU. Mae hawliadau am fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra a gasglwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn awgrymu bod diweithdra wedi bod yn cynyddu'n raddol o gyfradd isel. Mae data'r Arolwg o’r Llafurlu yn awgrymu bod anweithgarwch economaidd yn sefydlog ar y cyfan ar lefel y DU. Mae anweithgarwch economaidd a achosir gan salwch hirdymor hefyd yn debygol o barhau i fod yn uchel.

Mae chwyddiant, fel y'i mesurir gan chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI), wedi bod yn cynyddu'n araf yn 2025. Er ei fod yn dal i fod yn sylweddol is na lefelau uchaf 2022, wrth i

ail hanner 2025 ddechrau roedd y ffigur yn 3.8%, sydd bron yn ddwbl targed Llywodraeth y DU o 2%. Mae Banc Lloegr, sy'n gyfrifol am gyflawni'r targed, yn disgwyl i chwyddiant gyrraedd uchafbwynt yn nhrydydd chwarter 2025 ar oddeutu 4% ac yna llacio'n raddol i'r targed erbyn ail chwarter 2027. Er hynny, mae'r Banc wedi cydnabod bod y rhagolygon chwyddiant yn ansicr a bod y risgiau'n gogwyddo tuag i fyny.

Mae'r Banc yn defnyddio polisi ariannol, yn bennaf drwy newid Cyfradd y Banc, i sicrhau sefydlogrwydd prisiau. Mae Cyfradd y Banc wedi cael ei thorri bum gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, o uchafbwynt o 5.25% i 4%. Er bod y Banc wedi nodi y dylai aros ar lwybr ar i lawr, gan setlo yn ôl pob tebyg ar oddeutu 3.5%, mae rhywfaint o risg tuag i fyny yma.

Nid yw cyfraddau llog tymor hir, yn enwedig bondiau Llywodraeth y DU neu arenillion giltiau, yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Banc. Mae arenillion giltiau, yn yr un modd ag arenillion giltiau'r llywodraeth mewn llawer o wledydd eraill, yn sylweddol uwch nag yr oeddent flwyddyn yn ôl. Sbardun sylfaenol y cynnydd mewn cyfraddau llog hirdymor yw bod y cyflenwad o ddyled llywodraeth sy'n cael ei dyroddi yn uchel yn fyd eang, a bod buddsoddwyr bondiau yn pryderu am gynaliadwyedd cyllid cyhoeddus. Mae'r cynnydd yn arenillion giltiau'r DU wedi bod yn gymharol amlwg. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r gyfradd chwyddiant yn y DU; gwerthiannau giltiau Banc Lloegr a gostyngiad yn y galw gan gronfeydd pensiwn am giltiau, yn gysylltiedig â'r ffaith fod pensiynau buddion diffiniedig yn cael eu disodli gan bensiynau cyfraniadau diffiniedig.

Gwyddom yn dda bod sawl sioc economaidd wedi bod dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae'r arafu yn nhwf GDP o ganlyniad, a'r ymateb polisi i'r datblygiadau hyn, yn golygu bod dyled Llywodraeth y DU wedi cynyddu o 35.6% o GDP yn 2007-08 i 94.8% o GDP yn 2024-25. Mae'r OBR yn disgwyl i ddyled sefydlogi'n fras dros y pum mlynedd nesaf, wedi'i hwyluso gan fenthyca blynyddol is. Ar sail cynlluniau Llywodraeth y DU, erbyn 2029-30 bydd unrhyw fenthyca yr eir iddo yn fenthyca at ddibenion buddsoddi yn unig, gyda gwariant ar wasanaethau cyhoeddus o ddydd i ddydd a thaliadau llog ar y ddyled genedlaethol yn cael eu diwallu gan dderbyniadau.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Adolygiad Gwariant amlflwyddyn ym mis Mehefin 2025. Roedd yr Adolygiad yn pennu cyllidebau adnoddau ar gyfer y tair blynedd hyd at 2028-29 a chyllidebau cyfalaf ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2029-30 ar gyfer adrannau Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Roedd setliad Llywodraeth Cymru yn cynnwys swm ychwanegol o £5bn mewn cyllid adnoddau a chyfalaf dros gyfnod yr adolygiad gwariant, gan gynnwys £1bn yn ychwanegol yn 2026-27, £1.6bn yn 2027-28 a £2.4bn yn 2028-29. Er bod y setliad yn golygu mwy o gyllid i Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith na chynlluniau awgrymedig Llywodraeth ddiwethaf y DU dros y cyfnod, mae'r amgylchedd cyllidol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yn dal yn heriol iawn.

Ceir rhagor o fanylion yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025 a gyhoeddir gyda'r Gyllideb Ddrafft.


## 3. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu

### Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hariannu drwy gyfuniad o refeniw a gynhyrchir gan drethi datganoledig a grant bloc gan Lywodraeth y DU.

Y cyllid sydd ar gael inni yn 2026-27 yw £27.6bn.[2] Mae hyn yn cynnwys £23.8bn o gyllid adnoddau a £3.7bn o gyllid cyfalaf.

**Ffigur 3.1: Ffeithlun sy'n dangos y gwahanol elfennau cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru**




[2] Nid yw'n cynnwys adnoddau anariannol; AME adnoddau; ac AME cyfalaf.

**Ffigur 3.2: Elfennau Cyllido Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27**

| ELFENNAU CYLLIDO CYMRU | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|
| | £000oedd |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | |
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL): | 18,323,386 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | |
| Ardrethi Annomestig | 1,178,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 3,926,538 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 400,671 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 34,458 |
| Ad-dalu prifswm benthyca | -14,898 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **23,848,155** |
| **CYFALAF** | |
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL): | |
| Cyffredinol | 3,427,685 |
| Trafodiadau Ariannol | 131,746 |
| Cyfanswm | 3,559,431 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | |
| Benthyca | 150,000 |
| **CYFANSWM CYFALAF DEL A BENTHYCA** | **3,709,431** |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU A CHYFALAF** | **27,557,586** |
| **Eitemau eraill:** | |
| DEL Anghyllidol | 1,237,929 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | |
| Cyllidol | 35,641 |
| Anghyllidol | 341,993 |
| Cyfalaf | 1,447,478 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **30,620,627** |

## 3.1 Trethi Datganoledig

Mae trethiant datganoledig yn darparu dull hanfodol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i godi refeniw a chyflawni ein blaenoriaethau strategol. Dros y degawd diwethaf, mae Cymru wedi trawsnewid ei dull gweithredu o ran cyllid cyhoeddus drwy broses lwyddiannus o ddatganoli trethi allweddol, sy'n ein galluogi i fanteisio ar dwf economaidd ac arloesi ym maes polisi. Rydym yn gwneud penderfyniadau am drethi datganoledig, sy'n dylanwadu ar yr hyn y gallwn ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r trethi hyn hefyd yn helpu i sbarduno newidiadau ymddygiad, sy'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau allweddol megis anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.

Mae'r newid hwn yn golygu bod Cymru wedi gallu parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, ymateb i flaenoriaethau lleol, a darparu cymorth wedi'i dargedu i fusnesau a chymunedau. Mae cyflwyno trethi newydd megis yr ardoll ymwelwyr yn golygu y gall Cymru barhau i lunio ei dyfodol cyllidol mewn ffyrdd sydd o fudd i'r genedl.

Trethi datganoledig Cymru yw Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac Ardrethi Annomestig. Mae'r rhain yn ariannu tua 20% o wariant Llywodraeth Cymru, a gyda'i gilydd byddant yn cyfrannu £5.5bn i Gyllideb Cymru yn 2026-27.

Gan ystyried y gostyngiadau cysylltiedig i grant bloc Llywodraeth Cymru, disgwylir i'r trethi datganoledig ddarparu bron £500m yn fwy yn 2026-27 nag a fyddai wedi bod yn bosibl heb ddatganoli trethi.

### Polisi Trethi

Ategir dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi trethi gan y Fframwaith Polisi Trethi, sy'n nodi'r setliad datganoli cyllidol. Mae'r fframwaith hwn yn rhoi cyfeiriad a sicrwydd clir ar gyfer blaenoriaethau trethi Cymru, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu polisi trethi ar y cyd â rhanddeiliaid, partneriaid, trethdalwyr a dinasyddion.


Mae'r *Fframwaith Polisi Trethi* yn cael ei lywio gan egwyddorion craidd sy'n sicrhau bod trethi Cymru yn codi refeniw yn deg, eu bod yn cyflawni amcanion y llywodraeth, eu bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml, y cânt eu datblygu drwy gydweithio a chyfranogiad, a'u bod yn cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal. Ers cyflwyno pwerau trethi datganoledig, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull neilltuol o lunio polisi trethi sy'n rhoi pwyslais ar anghenion y cyhoedd, busnesau a chymunedau. Yn ogystal, caiff cynlluniau gwaith blynyddol ac adroddiadau cynnydd eu llunio i gynnal tryloywder ac atebolrwydd.

Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, rydym wedi cyhoeddi'r Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru sy'n nodi rhagor o fanylion am y newidiadau treth sy'n cael eu cynnig wrth osod y Gyllideb Ddrafft hon.

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru

Gall Llywodraeth Cymru amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) ar gyfer trethdalwyr[3] Cymru. Rydym wedi penderfynu peidio ag amrywio'r cyfraddau presennol yn 2026-27 ac, yn unol â'n hymrwymiadau blaenorol, rydym yn bwriadu pennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru'n 10c.  Mae hyn yn golygu y bydd pobl Cymru yn parhau i dalu'r un cyfraddau treth incwm â phobl Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Ffigur 3.3: Cyfraddau treth incwm arfaethedig yng Nghymru, 2026-27**




Mae'r broses ar gyfer Cymru'n golygu bod Llywodraeth y DU yn lleihau 10c ar bob un o'r tair cyfradd treth incwm i drethdalwyr Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn penderfynu a yw am bennu cyfraddau Cymru'n 10c, gan gadw cydraddoldeb rhwng trethdalwyr Cymru a threthdalwyr Lloegr, ynteu a yw am bennu cyfraddau gwahanol.

Penodwyd Sefydliad Fraser Allander a Phrifysgol Bangor i gynnal adolygiad annibynnol o ddatganoli treth incwm yng Nghymru, gan ymchwilio i berfformiad Cyfraddau Treth Incwm Cymru a modelau posibl eraill ar gyfer y dyfodol. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben ym mis Ionawr 2026.

---

[3] Yn y rhan fwyaf o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymru fel pobl sy'n byw yng Nghymru. Er hynny, ceir diffiniad llawn o dan adran 8 o Ddeddf Cymru 2014: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

## Trethi Cymreig eraill

Mae'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'u datganoli'n llawn. Mae'r ddwy dreth hyn yn cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r ddwy dreth yn darparu ysgogiadau pwysig i gefnogi amcanion strategol y llywodraeth. Gan fod gan Gymru ei refeniw trethi ei hun , caiff grant bloc Cymru ei leihau yn ôl swm sy'n gyfwerth â'r hyn y byddai trethi blaenorol y DU (Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi) wedi'i godi yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol bod y ddwy dreth ddatganoledig yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol i gynhyrchu refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Y Dreth Trafodiadau Tir (TTT)

Ar gyfer 2026-27, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y bydd y cyfraddau preswyl ac amhreswyl a'r trothwyon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yn aros yn ddigyfnewid.

Rydym yn bwriadu gwneud newidiadau i'r gyfundrefn Rhyddhad Anheddau Lluosog (MDR) er mwyn cyflwyno rheol 'cydraddoli' newydd i greu cydraddoldeb fesul annedd rhwng trafodiadau anheddau lluosog a thrafodiadau un annedd sy'n ddarostyngedig i'r cyfraddau preswyl uwch, ac er mwyn cynyddu cyfradd isaf bresennol rheolau treth MDR o 1% i 3%. Bydd y newidiadau hyn yn gwella tegwch i drethdalwyr sy'n prynu mwy nag un annedd yn yr un trafodiad, neu mewn trafodiadau cysylltiedig.

Byddwn hefyd yn cyflwyno rheol ad-dalu newydd ar gyfer cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir. Bydd yr ad-daliad newydd yn gymwys pan fo landlord preifat yn prynu annedd ac yna'n ei brydlesu i awdurdod lleol yng Nghymru drwy Gynllun Lesio Cymru - sef cynllun gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy. Bydd prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir yn parhau i fod yn gymwys i'r trafodiad.

Ym mis Mai 2025, argymhellodd y Tasglu Tai Fforddiadwy y dylai rhyddhad Treth Trafodiadau Tir gael ei gynnig i awdurdodau lleol pan fyddant yn prynu eiddo at ddibenion tai cymdeithasol – yn debyg i'r rhyddhad presennol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Rydym yn adolygu effeithiolrwydd y rhyddhad presennol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac yn ystyried a ddylid dilyn trefn debyg ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn adeiladu ar ymgynghoriad a gynhaliwyd i asesu'r opsiynau sydd ar gael i estyn rhyddhad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar y Dreth Trafodiadau Tir i awdurdodau lleol, a newidiadau eraill.

**Ffigur 3.4 Prif gyfraddau preswyl TTT**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £400,000 | 6% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| £1.5m ac yn uwch | 12% |

**Ffigur 3.5: Cyfraddau preswyl uwch TTT**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 5% |
| Mwy na £180,000 i £250,000 | 8.5% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 10% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 12.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 15% |
| £1.5m ac yn uwch | 17% |

**Ffigur 3.6: Prif gyfraddau amhreswyl TTT**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £250,000 | 1% |
| Mwy na £250,000 i £1m | 5% |
| Mwy na £1m | 6% |

**Ffigur 3.7: Cyfraddau rhent les amhreswyl TTT**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £2m | 1% |
| Mwy na £2m | 2% |

## Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT)

Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cyfrannu at leihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi ac yn cefnogi ein hamcanion amgylcheddol ehangach. Rydym yn bwriadu codi'r cyfraddau yn unol â'r chwyddiant a ragwelir, a fesurir drwy'r mynegai prisiau manwerthu (RPI) a ryddheir ar 26 Tachwedd. Felly, bydd y cyfraddau ar gyfer 2026-27 yn cael eu pennu yn y Gyllideb Derfynol yn dilyn Cyllideb Llywodraeth y DU yn yr Hydref.

Bydd £285,000 ychwanegol yn cael ei fuddsoddi yn Awdurdod Cyllid Cymru i helpu i gynnal mwy o weithgarwch ymchwilio mewn ymateb i waredu anawdurdodedig. Mae'r

OBR yn rhag-weld y bydd y cyllid hwn yn arwain at refeniw Treth Gwarediadau Tirlenwi ychwanegol o £715,000 yn 2026-27. Nodir y cyfraddau presennol ar gyfer TGT yn y tabl isod.

**Ffigur 3.8: Cyfraddau TGT (cyfradd fesul tunnell)**

| Cyfradd | O 1 Ebrill 2023 ymlaen | O 1 Ebrill 2024 ymlaen | O 1 Ebrill 2025 ymlaen |
|---|---|---|---|
| **Safonol** | £102.10 | £103.70 | £126.15 |
| **Is** | £3.25 | £3.30 | £6.30 |
| **Gwarediadau anawdurdodedig** | £153.15 | £155.55 | £189.25 |

## Rhagolygon refeniw trethi annibynnol

Ar y cyd â’r Gyllideb Ddrafft hon, cyhoeddir rhagolygon annibynnol yr OBR, wedi'u diweddaru, o’r refeniw o'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi. Mae trethi Cymru sydd wedi'u datganoli'n llawn yn cyfrannu £435m i gyllideb Cymru yn 2026-27.

Mae adroddiad Rhagolwg Trethi Cymreig ar wahân sy'n rhoi'r cefndir, ynghyd â manylion am y rhagolygon, wedi'i gyhoeddi ar wefan yr OBR.

## Ardrethi Annomestig

Mae ardrethi annomestig, neu ardrethi busnes, yn cael eu codi ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig, gan gynnwys siopau; swyddfeydd; tafarndai; warysau; ffatrïoedd; tai gwyliau neu dai llety; a meysydd parcio.

Ym mis Mehefin 2025, rhoddais yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran diwygio trethi lleol yng Nghymru, gan gynnwys ardrethi annomestig. Mae hyn yn cynnwys symud i ailbrisiadau bob tair blynedd, a fydd yn cynnal tegwch trwy sicrhau bod biliau talwyr ardrethi yn adlewyrchu newidiadau cymharol yn y farchnad eiddo.  Bydd camau olaf y rhaglen ddiwygio yn cael eu gweithredu ar 1 Ebrill 2026.

Darparodd Llywodraeth Cymru £78m ychwanegol yng Nghyllideb 2025-26 i ddarparu cymorth am y chweched flwyddyn yn olynol ar gyfer y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch er mwyn eu helpu gyda'u biliau ardrethi annomestig. Mae hyn yn adeiladu ar £1bn o gymorth a ddyrannwyd ers 2020-21 ac yn cydnabod y pwysau economaidd a wynebodd y sector yn ystod y pandemig a'r argyfwng costau byw dilynol. Roedd hwn yn rhyddhad dros dro, nad oedd erioed wedi'i fwriadu i barhau am gyfnod amhenodol.

Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cyllid mai 2025-26 fyddai blwyddyn olaf y rhyddhad i'r sector manwerthu, hamdden a lletygarwch.

Ar gyfer 2026-27, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno lluosydd is ar gyfer manwerthwyr bach a chanolig. Bydd hyn yn lleihau biliau ardrethi annomestig ar gyfer yr eiddo hyn – mae hyn yn cydnabod yr heriau unigryw sy'n wynebu siopau manwerthu 'brics a mortar', yn enwedig gan eu bod yn wynebu cystadleuaeth gan fanwerthwyr ar-lein.

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth ychwanegol sylweddol i fusnesau drwy ein cynlluniau rhyddhad parhaol, gwerth £250m bob blwyddyn.

Bydd trefniadau ardrethi annomestig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn cael eu pennu fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ein Cyllideb Derfynol. Bydd hyn yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU a chanlyniad yr ailbrisio ardrethi annomestig nesaf, a fydd hefyd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu'r disgwyliad y bydd refeniw ardrethi annomestig yn cael ei gynnal mewn termau real (yn unol â chwyddiant CPI a ragwelir). Mae cyllidebau sylfaenol ar gyfer datblygu a gweinyddu'r trethi lleol (ardrethi annomestig a'r dreth gyngor) wedi cynyddu 2%.

## 3.2 Grant Bloc

Mae cyfran o gyfanswm yr arian a godir drwy drethi yn y DU yn cael ei ddyrannu i Gymru gan Lywodraeth y DU drwy'r grant bloc. Mae addasiadau i'r grant bloc yn cael eu pennu gan ddefnyddio fformiwla Barnett. Defnyddir y fformiwla i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc yn dilyn cynnydd neu ostyngiad yng ngwariant Llywodraeth y DU ar raglenni yn Lloegr sydd wedi'u datganoli yng Nghymru.

Yn 2026-27, bydd Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) adnoddau cyllidol Llywodraeth Cymru yn £22.199bn cyn addasiadau i'r grant bloc. Bydd y DEL Cyfalaf cyffredinol yn £3.428bn. Bydd y cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn £132m.

### Addasiadau i'r grant bloc

Yn dilyn datganoli pwerau trethi i Gymru, cafodd grant bloc Llywodraeth Cymru ei leihau oherwydd bod refeniw o drethi datganoledig a rhannol-ddatganoledig bellach yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i Drysorlys y DU.

Mae newidiadau o ran yr addasiadau i'r grant bloc yn cael eu hysgogi gan dwf yn y trethi cyfatebol yn y DU. At ddibenion y Gyllideb Ddrafft, mae'r addasiadau yn gyson â rhagolygon OBR ynghylch trethi cyfatebol y DU yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol mis Mawrth 2025.

Ar ôl cyfrif am yr addasiadau i'r grant bloc, mae'r trethi datganoledig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol o £486m i'r Gyllideb yn 2026-27. Mae manylion llawn yr addasiadau i'r grant bloc a'r symiau cysoni i gyfrif am alldro wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

### Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC)

Defnyddir Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC) i roi hwb i fuddsoddiad dan arweiniad y wladwriaeth mewn endidau preifat ac endidau'r trydydd sector. Mae angen ad-dalu cyfran o'r cyllid hwn i Lywodraeth y DU.

Y setliad FTC gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2026-27 yw £132m. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ad-daliadau o fuddsoddiadau presennol o £13.2m yn 2026-27, gan roi cyfanswm o hyd at £145m ar gael i'w ddyrannu.

## 3.3 Ffynonellau Cyllid Eraill

### Benthyca Cyfalaf

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu benthyca at ddibenion cyfalaf o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol. Mae rhagolygon ad-dalu am y cyfnod yr ydym wedi pennu cynlluniau cyfalaf ar ei gyfer i'w gweld yn y Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario.

Mae'r rhagolwg ad-dalu yn tybio cyfnod ad-dalu o 25 mlynedd a chyfradd llog o 5.26% ar gyfer benthyca yn y flwyddyn ariannol bresennol. Amcangyfrifir bod cost benthyca yn 2026-27 yn £24.3m. Er bod benthyca yn ariannu buddsoddiad ar draws holl feysydd Llywodraeth Cymru, mae'r costau'n cael eu talu o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

Er mwyn darparu cymaint o fuddsoddiad cyfalaf ag y gallwn ar gyfer 2026-27, rydym yn disgwyl manteisio i'r eithaf ar fenthyca cyfalaf ar y terfyn o £150m.

### Cronfa Wrth Gefn Cymru

Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru yn rhan o drefniadau'r fframwaith cyllidol sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i ymdrin yn effeithiol ag anwadalrwydd sy'n deillio o refeniw trethi a chadw adnoddau heb eu gwario i'w defnyddio yn y blynyddoedd i ddod.

Gall Cronfa Wrth Gefn Cymru ddal hyd at £350m. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y symiau y ceir eu tynnu i lawr bob blwyddyn wedi'u cyfyngu i £125m ar gyfer gwariant adnoddau a £50m ar gyfer gwariant cyfalaf. Yn 2025-26, roedd gan Lywodraeth Cymru fynediad dros dro i Gronfa Wrth Gefn Cymru yn llawn heb unrhyw gyfyngiadau ar y symiau y ceir eu tynnu i lawr. Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddiddymu ein terfyn ar gyfer tynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn blynyddol yn barhaol, sy'n hanfodol i roi'r hyblygrwydd inni gynllunio ein cyllid yn well.

Nid yw ein cynlluniau presennol ar gyfer 2026-27 yn rhagdybio y caiff unrhyw symiau eu tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru. Byddwn yn defnyddio'r hyblygrwydd a gynigir gan Gronfa Wrth Gefn Cymru i reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn ac i fynd i'r afael ag unrhyw bwysau annisgwyl, gan ddarparu cynllun wrth gefn ar gyfer risgiau annisgwyl a allai godi.

### Cynlluniau Cyllid Arloesol

Rydym yn parhau i wneud defnydd llawn o atebion ariannu arloesol i helpu i ddarparu buddsoddiad ychwanegol amserol mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol.

Mae cynlluniau Cyllid Arloesol a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) yn rhoi hwb y mae ei fawr angen i gyllidebau cyfalaf, gan sicrhau bod cyfleusterau hanfodol i'r cyhoedd yn cael eu darparu'n gynt nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall. Bydd y Cynllun Cyllid Seilwaith yn cael ei gyhoeddi yn ail gam y Gyllideb Ddrafft a bydd yn cynnwys manylion ynghylch sut y bydd cyllid arloesol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith.

# 4: Cynlluniau Gwario Llywodraeth Cymru

## Y cyd-destun

Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 yn dyrannu mwy na £27bn o gyllid ar gyfer 2026-27. Dyna 98.6% o'r adnoddau sydd ar gael i ni. Mae £22.3bn o hyn yn gyllid adnoddau, £3.4bn yn gyfalaf cyffredinol, £130m yn gyfalaf Trafodiadau Ariannol a £1.2bn yn ardrethi annomestig.

Rydym yn darparu £800m yn fwy yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 nag a ddyrannwyd yng Nghyllideb Derfynol 2025-26. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn ailddatgan y penderfyniadau buddsoddi a wnaed yn 2025-26 ac yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i bob adran yn Llywodraeth Cymru yn unol â chwyddiant a ragwelir.

## Llinellau Sylfaen

Y man cychwyn ar gyfer sefydlu llinell sylfaen o gyllid i bob adran yn Llywodraeth Cymru neu Brif Grwpiau Gwariant (MEGs) yw Cyllideb Derfynol 2025-26. Dangosir unrhyw newidiadau rheolaidd a wnaed ers Cyllideb Derfynol 2025-26, gan gynnwys y Gyllideb Atodol Gyntaf fel addasiadau i'r llinell sylfaen. Mae addasiadau negyddol hefyd wedi'u gwneud i gyfrif am gyllid untro yn 2025-26 nad oedd yn rheolaidd o ran ei natur.

Y cyllid ychwanegol mwyaf sylweddol a ddarparwyd ers Cyllideb Derfynol 2025-26 oedd cyllid i gefnogi'r sector cyhoeddus datganoledig gyda chynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NICs) cyflogwyr a chynnydd i gyflogau'r sector cyhoeddus yn 2025-26.

Gwnaeth Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 gadarnhau dyrannu pecyn gwerth cyfanswm o £220m i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac addysg bellach, gyda chostau NICs uwch. Mae’r cyllid hwn yn rhan o’r llinell sylfaen ar gyfer 2026-27.

Darparwyd cyllid ychwanegol o £126m i gefnogi cynnydd yng nghyflogau'r sector cyhoeddus yn 2025-26. Mae £137m yn cael ei ychwanegu i’r llinell sylfaen ar gyfer hyn yn 2026-27, er mwyn cynnwys blwyddyn academaidd lawn o gyflogau athrawon.

Mae'r cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth y DU at ddibenion wedi'u clustnodi ac y gellir ei wario ar ddibenion penodol yn unig, yn cael ei ddyrannu ar sail untro ac felly nid yw'n rhan o'r llinellau sylfaen.

Mae dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn cael eu cymharu â'r llinellau sylfaen diwygiedig hyn i roi adlewyrchiad teg a thryloyw o gynnydd ar gyfer 2026-27.

Mae'r tablau isod yn dangos yr addasiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer pob MEG. Bydd manylion pob addasiad ar gael yn y tablau BEL a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft Fanwl ar 3 Tachwedd.

**Ffigur 4.1: Addasiadau i'r Llinell Sylfaen Adnoddau Cyllidol**

| Adnoddau Cyllidol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT** | **Cyllideb Derfynol 2025-26** | **Addasiadau** | **Llinell Sylfaen** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 11,975,555 | 186,159 | 12,161,714 |
| Tai a Llywodraeth Leol (ac eithrio ardrethi annomestig) | 5,483,188 | 75,399 | 5,558,587 |
| Addysg | 1,800,854 | 11,870 | 1,812,724 |
| Trafnidiaeth | 661,777 | 6,548 | 668,325 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 579,966 | -11,947 | 568,019 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 465,586 | 14,712 | 480,298 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 139,296 | -3,977 | 135,319 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 426,979 | 6,986 | 433,965 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **21,533,201** | **285,750** | **21,818,951** |

**Ffigur 4.2: Addasiadau i'r Llinell Sylfaen Cyfalaf Cyffredinol**

| Cyfalaf Cyffredinol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT** | **Cyllideb Derfynol 2025-26** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen** | **Llinell Sylfaen** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 619,480 | -5,450 | 614,030 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,196,280 | -5,000 | 1,191,280 |
| Addysg | 374,500 | | 374,500 |
| Trafnidiaeth | 529,197 | -400 | 528,797 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 306,566 | -53,455 | 253,111 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 327,676 | -106,329 | 221,347 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 17,890 | | 17,890 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 14,609 | | 14,609 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **3,386,198** | **-170,634** | **3,215,564** |

## Cynnydd yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27

Mae cynnydd chwyddiannol yn cael ei weithredu ar gyfer pob MEG i sicrhau y bydd pob rhan o Lywodraeth Cymru yn dechrau 2026-27 gydag o leiaf yr un lefel o gyllid mewn termau real â'u llinell sylfaen ddiwygiedig eleni (2025-26).

Wrth gyfrifo'r cynnydd chwyddiannol ar gyfer pob MEG, rydym wedi adlewyrchu rhagolygon chwyddiant mis Mawrth yr OBR ar gyfer 2026-27. Rhagwelwyd y byddai'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn 2026-27 yn 1.7%, a rhagwelwyd y byddai'r CPI (y mynegai prisiau defnyddwyr) yn 1.9%. Rydym hefyd wedi ystyried rhagolygon twf cyflog yr OBR ym mis Mawrth ar gyfer 2026-27 a oedd yn 2.2%.

Mae cynnydd o 2.2% ar adnoddau cyllidol yn cael ei ddarparu ar gyfer elfennau cyflog y sector cyhoeddus ym mhob MEG. Mae hyn yn ystyried effaith sylweddol cyflogau'r sector cyhoeddus o fewn rhai MEGs. Mae cynnydd o 2% yn cael ei ddarparu ar adnoddau cyllidol nad ydynt yn gyflogau, cyfalaf cyffredinol, ac ar gyfer cyfalaf Trafodiadau Ariannol.

Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd chwyddiannol ar gyfer pob MEG. Mae'r gwahaniaeth yng nghanran yr adnoddau cyllidol oherwydd y lefel wahanol o gyflogau yn y sector cyhoeddus ym mhob MEG ac o ganlyniad i effaith blwyddyn academaidd lawn o gyflogau athrawon yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol.

**Ffigur 4.3 Cynnydd Chwyddiannol Adnoddau Cyllidol**

| Adnoddau Cyllidol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT | Llinell Sylfaen | Cynnydd chwyddiannol | % newid rhwng y Llinell Sylfaen Ddiwygiedig a’r Llinell Sylfaen wedi’i chodi |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 12,161,714 | 259,334 | 2.13% |
| Tai a Llywodraeth Leol (ac eithrio ardrethi annomestig) | 5,558,587 | 122,801 | 2.21% |
| Addysg | 1,812,724 | 37,414 | 2.06% |
| Trafnidiaeth | 668,325 | 13,988 | 2.09% |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 568,019 | 11,684 | 2.06% |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 480,298 | 9,830 | 2.05% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 135,319 | 2,735 | 2.02% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 433,965 | 9,271 | 2.14% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **21,818,951** | **467,057** | |

**Ffigur 4.4: Cynnydd Chwyddiannol Cyfalaf Cyffredinol**

| Cyfalaf Cyffredinol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT | Llinell Sylfaen | Cynnydd chwyddiannol | % newid rhwng y Llinell Sylfaen Ddiwygiedig a'r Llinell Sylfaen wedi'i chodi |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 614,030 | 12,281 | 2.00 % |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,191,280 | 23,826 | 2.00 % |
| Addysg | 374,500 | 7,490 | 2.00 % |
| Trafnidiaeth | 528,797 | 10,576 | 2.00 % |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 253,111 | 5,062 | 2.00 % |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 221,347 | 4,427 | 2.00 % |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 17,890 | 358 | 2.00 % |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 14,609 | 292 | 2.00 % |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **3,215,564** | **64,312** | |

**Ffigur 4.5: Cynnydd Chwyddiannol Cyfalaf Trafodiadau Ariannol**

| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT | Llinell Sylfaen - Cyllideb Derfynol 2025-26 | Cynnydd chwyddiannol | % newid rhwng y Llinell Sylfaen Ddiwygiedig a'r Llinell Sylfaen wedi'i chodi |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | **0** | 0 | 0% |
| Tai a Llywodraeth Leol | **86,250** | 1,725 | 2% |
| Addysg | **0** | 0 | 0% |
| Trafnidiaeth | **0** | 0 | 0% |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | **10,000** | 200 | 2% |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | **29,500** | 590 | 2% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | **1,500** | 30 | 2% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | **0** | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **127,250** | **2,545** | |

Mae nifer cyfyngedig o addasiadau eraill wedi'u gwneud i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer rhwymedigaethau contractiol, cyllid a glustnodwyd gan Drysorlys EF at ddibenion penodol, trosglwyddiadau MEG i MEG a chostau sy'n deillio o weithredu deddfwriaeth newydd y cytunwyd arni gan y Senedd.

## Cyllid heb ei ddyrannu

Nid yw Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn dyrannu'r holl adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Y Gyllideb Ddrafft yw cam ffurfiol cyntaf proses y Gyllideb, ac mae'n parhau i fod yn uchelgais gan Lywodraeth Cymru i ddod o hyd i feysydd o flaenoriaethau cyffredin gydag Aelodau o'r Senedd er mwyn galluogi'r cyllid hwn i gael ei ddyrannu yn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr 2026.

Ar hyn o bryd mae tua £380m o gyllid heb ei ddyrannu. Mae hyn yn cynnwys £231m o adnoddau, £136m o gyfalaf cyffredinol, a £13m o gyfalaf trafodiadau ariannol.

## Dogfennau'r Gyllideb

Mae'r dogfennau canlynol wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad hwn ar y Gyllideb Ddrafft Amlinellol ar ein tudalen we Cyllideb Ddrafft 2026-27:

- Cynigion y Gyllideb Ddrafft
- Canllaw i'r Gyllideb Ddrafft Amlinellol
- Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwario
- Cynllun Gwella'r Gyllideb
- Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2025
- Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025
- Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025 – Pum Cipolwg Pwysig
- Dolen i ragolygon yr OBR ar gyfer trethi datganoledig Cymru

Mae'r tablau ariannol sy'n cefnogi'r Gyllideb Ddrafft hon i'w gweld yn llyfr gwaith y Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario. Mae'r tablau wedi'u cyhoeddi mewn un ddogfen sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i wella tryloywder o ran data'r Gyllideb.

## Atodiad A: Rhagolygon refeniw o drethi datganoledig ac addasiadau i'r grant bloc

### Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer refeniw o drethi datganoledig a manylion eu heffaith ar Gyllideb Cymru.

Mae datganoli trethi yn effeithio ar y gyllideb mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'r refeniw o drethi datganoledig yn gyfran sylweddol o gyfanswm y cyllid ar gyfer y gyllideb - ynghyd ag ardrethi annomestig maent yn cyfrif am tua 20%. Yn ail, mae gostyngiadau i'r grant gan Lywodraeth y DU, a elwir yn addasiadau i'r grant bloc, yn cyd-fynd â'r refeniw hwn.

Roedd lefel gychwynnol yr addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar y refeniw yng Nghymru o'r dreth berthnasol adeg datganoli. Mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn yr addasiadau yn seiliedig ar dwf yn y ffrydiau refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r mecanweithiau manwl wedi'u nodi yn y Cytundeb ar Fframwaith Cyllidol Llywodraeth Cymru.

Mae'r amcangyfrifon ar gyfer refeniw o drethi datganoledig a ddefnyddir yn y gyllideb yn rhagolygon a gynhyrchir yn annibynnol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), yn unol â'r cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar ragolygon refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer yr un flwyddyn, eto gan yr OBR.

Mae'r rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'u diweddaru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 ac maent wedi'u nodi'n fanylach yn y Rhagolwg Trethi Cymreig diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr OBR. Mae'r rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru a'r rhai sy'n sail i'r addasiadau i'r grant bloc wedi'u cymryd o Ragolygon Economaidd a Chyllidol Mawrth 2025 yr OBR.

Mae rhan gyntaf yr atodiad hwn yn nodi effaith net datganoli trethi – dyma'r gwahaniaeth rhwng refeniw o drethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc bob blwyddyn.

Gan fod effaith gyllidebol datganoli trethi yn seiliedig ar ragolygon, mae angen proses gysoni unwaith y bydd gwybodaeth alldro flynyddol ar gael. Caiff symiau cysoni eu cymhwyso i'r gyllideb mewn blynyddoedd diweddarach. Mae ail ran yr adroddiad hwn yn dangos y set ddiweddaraf o symiau cysoni.

Mae'r drydedd adran yn nodi sut y mae refeniw, addasiadau i'r grant bloc a symiau cysoni yn effeithio ar y ffynonellau cyllid yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27.

**Adran 1: Refeniw ac Addasiadau i'r Grant Bloc**

Mae'r adran hon yn cynnwys y rhagolygon diweddaraf ar gyfer refeniw o drethi, ynghyd ag alldro ar gyfer y blynyddoedd sydd ar gael. Mae'r rhain wedi'u nodi yn nhabl 1, ynghyd â'r alldro a'r rhagolygon ar gyfer yr addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc.

**Ffigur A.1: Alldro a Rhagolygon Refeniw o Drethi ac Addasiadau i'r Grant Bloc (£m)**

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 2,618 | 2,968 | 3,331 | 3,586 | 3,754 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 372 | 270 | 341 | 368 | 401 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 42 | 30 | 34 | 35 | 34 |
| **Cyfanswm** | **3,032** | **3,268** | **3,706** | **3,989** | **4,189** |
| **Addasiadau i'r Grant Bloc** | | | | | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | -2,535 | -2,782 | -3,077 | -3,291 | -3,441 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -313 | -237 | -283 | -287 | -348 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -25 | -19 | -19 | -16 | -15 |
| **Cyfanswm** | **-2,872** | **-3,038** | **-3,379** | **-3,594** | **-3,804** |
| **Effaith net ar refeniw** | | | | | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 83 | 187 | 254 | 295 | 313 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 60 | 33 | 58 | 81 | 52 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 17 | 10 | 15 | 19 | 20 |
| **Cyfanswm** | **160** | **230** | **327** | **395** | **385** |

**Alldro**

Mae'r rhagolygon cyffredinol ar gyfer effaith refeniw net trethiant datganoledig yn gadarnhaol, gan gynyddu £155m rhwng yr alldro llawn diweddaraf ar gyfer 2023-24 a'r rhagolwg ar gyfer 2026-27. Rhagwelir y bydd effaith net y trethi datganoledig ar refeniw yn 2026-27 yn fwy na £385m yn gyfan gwbl, gyda chyfraniadau positif gan y tair treth.

**Adran 2: Symiau cysoni**

Nid yw gwybodaeth alldro ar gyfer refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) na'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc ond ar gael tua 16 mis ar ôl diwedd y flwyddyn berthnasol. Cyhoeddwyd yr wybodaeth alldro ddiweddaraf ar gyfer 2023-24 ym mis Gorffennaf 2025.

Mae'r ddwy elfen yn sefydlog at ddibenion cyllidebol gan ddefnyddio rhagolygon yr OBR o'r hydref blaenorol. Cyhoeddwyd nodyn technegol ar y cyd â Thrysorlys EF ar 21 Awst, yn rhoi manylion y symiau cysoni ar gyfer 2023-24. Ar gyfer 2024-25 a 2025-26, amcangyfrifir symiau cysoni gan ddefnyddio'r rhagolwg diweddaraf. Dangosir symiau cysoni gwirioneddol a rhagolygol yn Nhabl 2.

**Ffigur A.2: Symiau cysoni, alldro a rhagolygon (£m)**

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfraddau Treth Incwm Cymru** | | | | |
| Yn cael eu defnyddio mewn Cyllidebau | | | | |
| Refeniw | 2,478 | 2,795 | 3,171 | 3,462 |
| Addasiadau i'r Grant Bloc | -2,447 | -2,733 | -3,017 | -3,261 |
| Alldro a'r rhagolygon diweddaraf | | | | |
| Refeniw | 2,618 | 2,968 | 3,331 | 3,586 |
| Addasiadau i'r Grant Bloc | -2,535 | -2,782 | -3,077 | -3,291 |
| Symiau cysoni | | | | |
| Refeniw | 140 | 173 | 160 | 123 |
| Addasiadau i'r Grant Bloc | -87 | -49 | -60 | -29 |
| **Trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn** | | | | |
| Addasiadau i'r Grant Bloc a ddefnyddir mewn Cyllidebau | | | | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -322 | -241 | -259 | -298 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -27 | -21 | -20 | -15 |
| Alldro'r Addasiadau i'r Grant Bloc a'r rhagolygon diweddaraf | | | | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -313 | -237 | -283 | -287 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -25 | -19 | -19 | -16 |
| Symiau cysoni | | | | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 9 | 4 | -24 | |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 2 | 2 | 0 | |

## Alldro

Mae data alldro ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi) a threthi cyfatebol y DU yn fwy amserol ac maent bellach ar gael hyd at 2024-25. Fel yn achos CTIC, gosodir yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn gan ddefnyddio rhagolygon yr hydref blaenorol ond, yn wahanol i CTIC, fe'u hadolygir yn ystod y flwyddyn hefyd. Mae hyn yn golygu bod y symiau cysoni ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc yn tueddu i fod yn gymharol fach. Dangosir y rhain yn Nhabl 2 hefyd. (Nid oes unrhyw gysoni ar gyfer y refeniw o'r trethi

sydd wedi'u datganoli'n llawn eu hunain, gan fod alldro yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar unwaith.)

**Adran 3: Rhagolygon a symiau cysoni yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru**

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd wybodaeth o'r ddwy adran gyntaf i ddangos yr effaith gyffredinol ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

Mae'r symiau cysoni ar gyfer refeniw CTIC a'r addasiadau i'r grant bloc yn cael eu cymhwyso i'r gyllideb dair blynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn perthyn iddi. Felly, mae symiau cysoni 2023-24 yn cael eu cymhwyso i Gyllideb 2026-27.

Mae'r cysoniadau ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc sy'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu cymhwyso ddwy flynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn perthyn iddi. Mae symiau cysoni 2024-25 yn cael eu cymhwyso yn 2026-27.

**Ffigur A.3: Rhagolygon a symiau cysoni yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 (£m)**

| | Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025 |
|---|---|
| **Refeniw o drethi** | |
| Refeniw CTIC | 3,754 |
| Symiau cysoni refeniw CTIC | 173 |
| Cyfanswm CTIC | 3,927 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 401 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 34 |
| **Cyfanswm refeniw trethi datganoledig** | **4,362** |
| **Addasiadau i'r Grant Bloc** | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | -3,441 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -348 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -15 |
| Symiau cysoni o flynyddoedd blaenorol | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | -49 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -24 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 0 |
| Cyfanswm | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | -3,490 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -372 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -14 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr addasiadau i'r grant bloc** | **-3,876** |
| **Cyfanswm yr effaith net ar y gyllideb** | **486** |

Mae effaith net gyffredinol trethi datganoledig ar gyllideb 2026-27 yn £486m, gan gynnwys swm cysoni ffafriol o £100m mewn perthynas â'r blynyddoedd blaenorol.